# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0377(FPS) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Mehefin 2008

**At Mohammad Asghar:**

Yn ystod y Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Gwasanaethau Cyhoeddus ar 18 Mehefin 2008, a gymerais yn absenoldeb Andrew Davies AC, cytunais i ysgrifennu atoch am eich cwestiwn yn ymwneud â'r ddarpariaeth ariannol a wnaed i gyflawni'r ymrwymiad yn Cymru'n Un ar nyrsys teulu ac i roi gwybod i chi am y cynnydd diweddaraf.

Mae Cymru'n Un yn rhoi ymrwymiad i ddarparu o leiaf un nyrs deulu i bob ysgol uwchradd erbyn diwedd tymor y Cynulliad.

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo drwy gydol y flwyddyn, yn y lle cyntaf gyda phlant a phobl ifanc i geisio eu barn ar y datblygiad hwn. Dilynwyd hyn gan gynadleddau i randdeiliaid ledled Cymru i helpu i lywio dogfen ymgynghori a gaiff ei chyhoeddi yn ystod yr haf.

Dyrannwyd cyllideb o £4.5m dros dair blynedd i gefnogi'r ymrwymiad hwn. Nid oes modd darparu'r manylion ar sut y defnyddir yr arian hyd nes y cytunir ar fodel o ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y teulu.